**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-L/JM/0662/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

18 Medi 2019

Annwyl Mick,

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 2 Awst 2019.

Rwyf wedi nodi barn y pwyllgor y dylai'r Memorandwm Esboniadol a gyflwynwyd gyda'r Bil fod wedi cynnwys esboniad mwy cyflawn o'r asesiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â hawliau dynol.

Cyn Cyfnod 3, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r cydbwysedd rhwng yr hyn a geir yn y Memorandwm Esboniadol a'r asesiadau effaith a gynhaliwyd ac a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, bydd y swyddogion yn cadw mewn cof y llythyr oddi wrth y cyn-Brif Weinidog, a oedd yn nodi safbwynt y Llywodraeth, sef, 'oherwydd y newid i gadw pwerau a'r ffaith nad oes angen cyfeirio at bynciau y rhoddir pwerau iddynt bellach, mae adran cymhwysedd deddfwriaethol Memoranda Esboniadol yn y dyfodol yn fwy tebygol o gydymffurfio â'r datganiad ym Memorandwm Esboniadol y Bil Ffioedd (Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru)'.

Wrth ymateb i argymhellion y tri phwyllgor sydd wedi craffu ar y Bil, rwyf wedi ceisio sicrhau cydbwysedd gofalus, ond yn anochel cafwyd achlysuron pan oedd yn rhaid i mi gytuno ag un ochr yn hytrach na'r llall.

Rwyf wedi nodi ymatebion i'r ddau argymhelliad a wnaed yn Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil isod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. *Dylai'r Dirprwy Weinidog weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a sicrhau bod y Canllawiau Safon Gyhuddo diwygiedig ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig ar gael ar ffurf drafft i'r Cynulliad cyn y trafodion Cyfnod 3 ar y Bil.*

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n cytuno â barn y Pwyllgor y dylwn i, a'm swyddogion, barhau i weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i weithredu'r Bil yn effeithiol, ond ni allwn ddylanwadu ar Wasanaeth Erlyn y Goron o ran datblygu nac amseru ei ganllawiau.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gorff annibynnol. Cyhoeddir ei ganllawiau gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, ac nid yw'n briodol i Weinidogion Cymru ddylanwadu ar ei ganllawiau, nac i Wasanaeth Erlyn y Goron fod yn atebol i waith craffu gan ddeddfwrfa fel hyn.

Bydd canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron bob amser yn ystyried bwriad deddfwriaeth a basiwyd, ac os bydd y llysoedd yn eu cwestiynau, y gall y farnwriaeth ystyried a yw canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gyson â'r bwriad hwnnw. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth na'r ddeddfwrfa hawl i gyfarwyddo nac awgrymu wrth Wasanaeth Erlyn y Goron sut y dylid llunio canllawiau.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 6 Mehefin 2019, gofynnwyd i Barry Hughes (Prif Erlynydd y Goron yng Nghymru) a allai'r Cynulliad weld y newidiadau drafft i ganllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn gwneud penderfyniadau terfynol am y gwaith o graffu ar y Bil. Ei ymateb oedd nad oedd o'r farn y byddai'n arbennig o ddefnyddiol a bod perygl y gallai roi'r drol o flaen y ceffyl.[1]

2. *Dylid diwygio'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru:*
    - *Yn cynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu'r Bil, o fewn tair blynedd i ddod â'r ddeddfwriaeth i rym*, *ac*
    - *Yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau gwerthusiad o'r fath i'r Cynulliad Cenedlaethol.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n cynnig cyflwyno diwygiad i roi'r argymhelliad hwn ar waith. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ar ôl gweithredu ac mae Pennod 10 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r dull gweithredu bwriadedig ar gyfer monitro ac adolygu effaith y ddeddfwriaeth. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, byddwn yn darparu rhagor o fanylion ac yn amlinellu cost yr adolygiad ar ôl gweithredu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn ystod Cyfnod 3.

Caiff effaith y Bil ei mesur mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy waith ymchwil a gwerthuso ynghyd â datblygu proses o gasglu data yn rheolaidd ar y cyd â rhanddeiliaid.

Byddwn yn caffael contractwyr i gynnal astudiaethau o agweddau o bryd i'w gilydd yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil, ei gyfnod gweithredu ac ar ôl iddo gychwyn. Bydd y rhain yn ein galluogi i olrhain y newidiadau yn agweddau pobl at y defnydd o gosb gorfforol, ac yn eu hymwybyddiaeth o'r gyfraith. Fel y sefyllfa bresennol, cyhoeddir yr adroddiadau hyn yn unol â gofynion Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r llysoedd i gytuno ar y broses o gasglu data perthnasol am gyfnod cyn gweithredu'r Bil er mwyn pennu llinellau

[1] Paragraff 54, http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5520

sylfaen. Ein bwriad yw y bydd y broses o gasglu data yn parhau ar ôl i'r Bil gychwyn er mwyn monitro ei effaith. Bydd y broses o gasglu data, lle bynnag y bo modd, yn cyd-fynd â gweithgarwch presennol neu waith perthnasol arall. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen dynodedig ar Gasglu a Monitro Data yn mynd â'r gwaith manwl hwn rhagddo.

Byddem yn disgwyl cynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth ar ôl ei gweithredu, a chymryd ei bod yn cael Cydsyniad Brenhinol, gan ddechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad cychwyn a pharhau am gyfnod o bum mlynedd yn hytrach na'r tair blynedd a argymhellwyd. Mae cyfnod o bum mlynedd yn cynnig amserlen debyg i Seland Newydd, gan olygu bod modd dadansoddi tueddiadau yn fwy effeithiol.

Nodaf fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi cynnig argymhellion sy'n ymwneud ag adolygu ar ôl gweithredu.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Cynulliad.

Yn Gywir



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services